

Gwirfoddolwr Cefnogi Ymwelwyr Cartrefi Gofal Age Cymru

Mae hon yn rôl gyffrous, newydd sydd wedi'i datblygu i helpu cartrefi gofal i groesawu ymwelwyr yn unol â rheolau Covid-19.

Ar ôl blwyddyn o gyfyngiadau mawrion o ran ymweld â chartrefi gofal oherwydd cyfyngiadau Covid-19, gwyddom fod cyfeillion a / neu deulu yn awyddus i allu dychwelyd i ymweld â'u hanwyliaid.

Bydd y swydd wirfoddol hon yn chwarae rôl yn cefnogi cartrefi gofal gydag ymweliadau wrth iddynt geisio â chroesawu ymwelwyr.

Gallech fod yn:

- Cefnogi'r cartref gofal gyda threfniadau i hwyluso ymweliadau
- Croesawu ymwelwyr ar y diwrnod, gan sicrhau eu bod yn cadw pellter, yn gwisgo masgiau ac yn defnyddio diheintydd dwylo fel sy'n briodol
- Tywys ymwelwyr i mewn ac allan o ardaloedd ymweld
- Gweithgareddau eraill sy'n cefnogi ymweliadau didrafferth a diogel.

Byddai'r rôl yn addas i rywun sydd â'r priodweddau a'r sgiliau canlynol:

- Sgiliau cyfathrebu cadarnhaol, da
- Y gallu i weithio heb oruchwyliaeth, er eich menter eich hun yn ôl yr angen
- Dealltwriaeth o gyfrinachedd
- Dealltwriaeth o anghenion pobl hŷn ac empathi tuag atynt
- Unigolyn dibynadwy, amyneddgar a sensitif
- Cyfeillgar a hyderus.

Beth allwch chi ei ennill o'r rôl hon?

- Cwrdd â phobl newydd a magu cyfeillgarwch â nhw
- Yr hyfforddiant a'r cynefino priodol
- Cefnogaeth gan staff Age Cymru a'r cartref gofal
- Profiad gwyb i roi ar eich CV, a geirda ar gyfer gwaith petai angen
- Cyfle i wneud gwahaniaeth go iawn drwy ddwyn preswylwyr a'u teulu neu ffrindiau ynghyd.

Cartrefi Gofal sydd ynghlwm â hyn:

- Glan Rhos – Ynys Môn
- Ysguborwen – Aberdâr
- Capel Grange – Casnewydd
- St. Nicholas – Trefaldwyn, Powys
- Plas Bryn Rhosyn – Castell Nedd
- Sunrise – Caerdydd.

Ymrwymiad amser: Byddai pob sesiwn yn para oddeutu 3 awr. Rydym yn awyddus i ddenu gwirfoddolwyr sy'n gallu ymroi eu hamser i un neu fwy o sesiynau yr wythnos yn dibynnu ar argaeledd. Croesawn geisiadau i wirfoddoli dros y penwythnos er mwyn bodloni gofynion oriau ymweld cartrefi gofal.

Mae'r swydd yn amodol arnoch yn gwneud profion llif unffordd yn ôl yr angen.

I wneud cais, anfonwch e-bost at: carehomevolunteer@agecymru.org.uk

Mae Age Cymru yn elusen gofrestrdig: 1128436. Mae'n gwmni cyfyngedig trwy warant ac wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr 6837284. Cyfeiriad ein swyddfa gofrestrdig Llawr Isaf, Tŷ Mariners, Llys Trident, Heol East Moors, Caerdydd CF24 5TD. © Age Cymru 2021